AcademiWales

#UnGwasanaethCyhoeddusCymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ysgol Haf Arweinyddiaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru Gyfan

## Arwain i Bawb – Creu Diwylliannau a Hinsoddau



22 – 26 Mehefin 2020

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant,
Llanbedr Pont Steffan

# Mae'n bleser gan Academi Wales gyhoeddi'r 15eg Ysgol Haf Arweinyddiaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru Gyfan blynyddol

## Beth yw'r Ysgol Haf?

Rhaglen ddysgu breswyl gynhwysfawr sy'n dod ag oddeutu 250 o unigolion o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru ynghyd bob blwyddyn yw'r Ysgol Haf. Cynhelir y digwyddiad dros 5 diwrnod gwaith mewn amgylchedd dysgu academaidd. Mae'r Ysgol Haf yn gyfle i bobl weithio ar draws ffiniau a diwylliannau i ddeall ei gilydd yn well, a sut mae bod yn arweinwyr mwy effeithiol ar gyfer yr 21ain ganrif.

Mae Academi Wales wedi ymrwymo'n llwyr i gynnal digwyddiadau dysgu sy'n seiliedig ar ethos Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru. Gyda'i gilydd, mae arweinwyr a rheolwyr gwasanaethau cyhoeddus yn gyfrifol am wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ysgol Haf yn gyfle i ddysgwyr fynd ati i roi ar waith y gwerthoedd gwasanaethau cyhoeddus a'r ymddygiad arwain sy'n allweddol i lwyddo.



## I bwy mae'r Ysgol Haf yn addas?

Mae'r Ysgol Haf yn addas i reolwyr ac arweinwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru, sy'n siapio ac yn dylanwadu ar y broses o ddarparu ein gwasanaethau, ac sy'n arwain prosesau newid. Mae'n berthnasol iawn i'r rheini sy'n wynebu cyfnod heriol ac yn ceisio gwella eu canlyniadau'n sylweddol.

Mae'r digwyddiad dysgu hwn, a gynhelir dros 5 diwrnod, wedi'i gynllunio fel rhaglen 'ymestyn'. Bydd yn gyfle unigryw i fwrw golwg dros eich sgiliau presennol a'u gloywi, i gael gwybodaeth newydd a dysgu am arferion arwain arloesol, ac i edrych ar ffyrdd gwreiddiol o 'ddarparu busnes', gan fanteisio ar gyfoeth o brofiadau a gwybodaeth gyffredinol.

## Arwain i Bawb – Creu Diwylliannau a Hinsoddau

Yn ystod y digwyddiad, bydd Ysgol Haf 2020 yn gyfle i adolygu a gloywi sgiliau arwain hollbwysig, cael gwybodaeth newydd a chryfhau dealltwriaeth o'r ymarfer arwain diweddaraf yn ogystal ag ymchwilio i ffyrdd arloesol o newid ymddygiad er mwyn cael canlyniadau gwahanol, a dysgu sut i 'gyflawni busnes' mewn ffordd wahanol er mwyn ateb y galw sy'n wynebu'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

Mae rhaglen ddysgu'r Ysgol Haf wedi cael ei datblygu i helpu i drawsnewid eich arddull arwain i ddefnyddio eich gwerthoedd a'ch ymddygiadau chi eich hun i helpu pobl i deimlo, meddwl a gweithredu y tu hwnt i'r terfynau y maen nhw'n eu dychmygu, ac i ddefnyddio'r galluoedd a'r capasiti sydd gennych chi go iawn i ateb gofynion arwain mewn gwasanaeth cyhoeddus a bod yn arweinydd sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif. Bydd yr wythnos hon yn darparu dysgu sy'n ychwanegu gwerth ac yn eich helpu i greu llwyddiant yn eich rôl, gyda'ch tîm ac er budd eich sefydliad.

## Mae siaradwyr 2020 yn cynnwys:



### Gemma Morgan

Hyfforddwyd Gemma yn yr Academi Filwrol Frenhinol Sandhurst, hi oedd y fenyw gyntaf i dderbyn Cleddyf Carmen gan Ei Uchelder Brenhinol y Dywysoges Frenhinol, am berfformiad rhagorol fel swyddog ifanc. Mae'n llysgennad yr Elusen 'Help for Heroes', yn cefnogi Cyn-filwyr Lluoedd Arfog Prydain sydd wedi'u clwyfo, eu hanafu ac yn sâl. Wedi dioddef straen ôl-drawmatig o ganlyniad i'w gwasanaeth milwrol, mae hi'n ymgyrchu i hyrwyddo gwell ymwybyddiaeth o iechyd meddwl mewn sefydliadau heddiw. Mae Gemma hefyd yn gyn athletwraig ryngwladol, yn gapten ar Gymru mewn lacrosse a bu'n cystadlu mewn tri Chwpan y Byd.



### Jonathan Stebbings, Uwch Gyfarwyddwr Rhaglen, Olivier Mythodrama BA (Oxon), TAR, M. Phil

Mae Jonathan yn ymgynghorydd sefydliadol, hwylusydd, hyfforddwr a hyfforddwr gweithredol – ac yn Uwch Gyfarwyddwr Rhaglen a Phrif Gyflwynydd Olivier Mythodrama ac mae ganddo brofiad helaeth o arwain grwpiau datblygu ac unigolion ar draws pob sector – corfforaethol, cyhoeddus a'r trydydd sector.

Mae bywgraffiadau llawn y siaradwyr ar gael yn www.llyw.cymru/academiwales



## Thimon de Jong Cyfarwyddwr, WHETSTON/strategic foresight

Mae Thimon de Jong yn rhedeg WHETSTON/strategic foresight, melin drafod sy'n arbenigo mewn ymddygiad dynol, newid cymdeithasol a strategaeth fusnes yn y dyfodol. Mae'n brif gyflwynydd ac yn hyfforddwr arwain profiadol ac mae wedi gweithio i gleientiaid fel Morgan Stanley, Vodafone, ac IKEA. Mae Thimon hefyd yn darlithio yn adran seicoleg gymdeithasol ym Mhrifysgol Utrecht lle mae'n dysgu myfyrwyr meistr sut y gellir cymhwyso ymchwil academaidd yn ymarferol i wella strategaeth fusnes. Mae ganddo radd meistr mewn Astudiaethau Diwylliannol gydag Astudiaethau Busnes Rhyngwladol fel is-bwnc. Mae'n gyn gyfarwyddwr mewnwelediadau a strategaethau TrendsActive, yn ymchwilydd yn FreedomLab Future Studies ac yn brif olygydd cylchgrawn RELOAD.



## Matthew Taylor CBE, Prif Weithredwr Y Gymdeithas Frenhinol er hybu'r Celfyddydau, Gweithgynhyrchion a Masnach

Mae Matthew Taylor wedi bod yn Brif Weithredwr yr RSA ers Tachwedd 2006.

Yn ystod ei gyfnod yn y swydd, mae'r Gymdeithas wedi cynyddu ei hallbwn ymchwil ac arloesi yn sylweddol, wedi darparu llwybrau newydd i gefnogi mentrau elusennol ei 30,000 o gymrodyr, ac wedi datblygu proffil byd-eang fel platfform ar gyfer syniadau.

Mae'n ymddangos yn rheolaidd ar y cyfryngau ac mae wedi ysgrifennu a chyflwyno sawl rhaglen ddogfen ar Radio Four, ac mae'n banelydd ar y rhaglen Moral Maze.

Mae bywgraffiadau llawn y siaradwyr ar gael yn www.llyw.cymru/academiwales

## Dyma oedd gan gynrychiolwyr blaenorol i'w ddweud:

*Mae'n brofiad mor wych cael fy amgylchu gan gynifer o bobl o wahanol gefndiroedd, pob un eisiau gwella eu hunain – roedd yna deimlad gwirioneddol o un gwasanaeth cyhoeddus i Gymru.*

**Cynrychiolydd 2019, Heddlu De Cymru**

*Ar ddechrau taith yr Ysgol Haf mae'n amhosibl dychmygu y gellid cyflawni twf mor ddwys mewn pŵer personol a phŵer grŵp mewn pedwar diwrnod. Diolch yn fawr am y cyfle i gymryd rhan a herio fy hun mewn cymaint o ffyrdd gwerth chweil.*

**Cynrychiolydd 2019, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru**

*Mae'r Ysgol Haf wedi newid fy mywyd yn llythrennol, o ran fy agwedd bersonol at fy ngyrfa, ond hefyd yn fy mywyd personol. Mae'n gyfle gwych a byddwn yn ei argymell yn fawr i unrhyw un sydd eisiau bod y gorau y gallant fod. Diolch Academi Wales am y profiad hwn, fe drefnoch chi hyn yn berffaith!*

**Cynrychiolydd 2019, Llywodraeth Cymru**

Mae bywgraffiadau llawn y siaradwyr ar gael yn www.llyw.cymru/academiwales

## Sut mae gwneud cais?

Mae sicrhau bod buddsoddiad yn dwyn budd yn bwysicach nag erioed yn yr hinsawdd sydd ohoni.

Mae hyn yn golygu mwy na dim ond budd ariannol. Mae'n ymwneud â'r budd rydych chi'n ei gael o'r cyfraniad, sef yr effaith gynaliadwy y bydd yr hyn a ddysgir yn ei chael ar yr unigolyn a'r sefydliad, a sut mae hyn yn gysylltiedig â'r gwasanaethau a ddarperir i bobl yng Nghymru. Gyda hyn mewn golwg, rydym am i sefydliadau gymryd cyfrifoldeb dros ddewis yr enwebeion ar gyfer yr Ysgol Haf.

Mae'r sefydliadau hynny sydd am reoli eu ceisiadau yn ymddangos ar y rhestr hon – "**rhestr o gysylltiadau sefydliadol**" ar gyfer yr Ysgol Haf, sydd ar gael ar ein gwefan.

Mae dwy ffordd o wneud cais am le:

1. Os yw'ch sefydliad yn ymddangos ar y rhestr o gysylltiadau sefydliadol, bydd yn **rhaid** i chi gysylltu â'r person a enwir i gael gwybod beth yw proses ymgeisio'ch sefydliad a chael sêl bendith ganddo erbyn **16 Mawrth 2020**. Allwn ni ddim prosesu ceisiadau uniongyrchol gan unigolion sy'n gweithio i'r sefydliadau hyn.

   Pan fydd eich sefydliad wedi cadarnhau eich enwebiad, bydd yn rhaid i chi lenwi ffurflen gais ar-lein ar gyfer Ysgol Haf 2020 (gweler isod) erbyn 6 Ebrill 2020.

2. Os ydych chi'n gweithio i sefydliad sydd ddim yn ymddangos yn y rhestr, dylech wneud eich cais yn annibynnol gan sicrhau eich bod yn cael y caniatâd priodol gan eich prif weithredwr neu'ch uwch arweinydd.

   Bydd yn rhaid i chi lenwi ffurflen gais ar-lein ar gyfer Ysgol Haf 2020 erbyn 6 Ebrill 2020.

Mae ffurflenni cais ar gael ar ein gwefan yn www.llyw.cymru/academiwales

## Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau

Ar ôl cael caniatâd i fynd i'r digwyddiad a dilyn y llwybr perthnasol, bydd yn **rhaid** i chi lenwi'r ffurflen gais ar-lein erbyn **6 Ebrill 2020**, gan nodi'n glir ac yn gryno beth yw'ch amcanion wrth ddod i'r digwyddiad.

Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod a ydyn nhw wedi cael lle ai peidio erbyn diwedd mis Ebrill 2020.

## Ychwanegol I'r raglen Ysgol Haf, bydd

cyfle i gynadleddwyr ennill cymhwyster lefel uwch cydnabyddedig trwy fodiwl academaidd newydd, sy'n gysylltiedig â'u hamser yn yr Ysgol Haf. Mae'r modiwl 'Adolygiad o Ddysgu Proffesiynol' sy'n cael ei gyflwyno gan Brifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant, yn unigryw, gan ei fod wedi'i ddatblygu fel man cychwyn ar gyfer y rhai hynny sydd â diddordeb mewn astudio ar gyfer Doethuriaeth Broffesiynol (DProf) ond gellir ei ddefnyddio tuag at Dystysgrif Ôl-raddedig (PGCert), Diploma Ôl-raddedig (PGDip), Gradd Meistr (MA) neu Radd Meistr Proffesiynol (MProf). Felly beth bynnag yw'ch dyheadau academaidd, gall y modiwl hwn eich helpu ar eich ffordd.

Ceir rhagor o fanylion ar dudalen we https://academiwales.gov.wales/pages/summer-school-ysgol-haf-2020 Ysgol Haf Academi Wales.



## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am yr Ysgol Haf, ewch i:
https://academiwales.gov.wales/pages/summer-school-ysgol-haf-2020

Os hoffech chi gael e-fwletin Academi Wales, anfonwch e-bost atom: academiwales@llyw.cymru neu ewch i www.llyw.cymru/academiwales

AcademiWales

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG39849